
# Dynwared Gandhi


Rupak De Chowdhuri/Reuters



Ddoe (29 Ionawr 2012), torrodd bron 500 o fechgyn ifanc yn yr India record y byd am y nifer fwyaf o blant mewn un lle a oedd wedi eu gwisgo fel Gandhi.

Roedd y bechgyn rhwng 10 ac 16 oed ac roeddent yn dod o deuluoedd tlawd. Roedd pob un yn gwisgo cap lliw croen - er mwyn rhoi'r argraff eu bod wedi siafio'u pennau - sbectols crwn a mwstasys llwyd. Yn ogystal, roeddent yn gwisgo gwisg wen blaen a oedd yn edrych fel y *dhoti* a'r siôl roedd Mahatma Gandhi ei hun yn arfer eu gwisgo. Yn union fel Mahatma Gandhi, roeddent yn cario ffon hefyd.

Nid nhw oedd y cyntaf i geisio record y byd ar gyfer edrych yn debyg i Gandhi. Ddwy flynedd yn ôl, ar 13 Mehefin 2010, daeth 255 o blant wedi eu gwisgo fel Gandhi i dalaith Tamil Nadu i ennill y record.

Yn ogystal â cheisio torri record y byd, roedd y bechgyn wedi dod i Kolkota er mwyn cymryd rhan mewn gorymdaith heddwch. Roedd hyn i gyd yn rhan o'r dathliadau i nodi Dydd y Merthyron, sy'n cael ei gynnal heddiw.

Mae Dydd y Merthyron yn cael ei ddathlu mewn gwahanol rannau o'r India sawl gwaith y flwyddyn, a dweud y gwir, er mwyn cofio am arweinwyr pwysig yn hanes y wlad. Heddiw, rydym yn cofio am farwolaeth Mahatma Gandhi ar Ionawr 30, 1948.

Fel rhan o'r cofio, adroddwyd gweddïau, gosodwyd torch o flodau wrth gofeb Raj Ghat yn Kolkota a chafwyd dwy funud o dawelwch.

**Tad India**

Mae llawer o bobl yn adnabod Gandhi fel "Tad yr India". Roedd yn brwydro dros hawliau'r bobl ar adeg pan oedd llywodraeth Prydain yn rheoli'r India. Bu'n protestio yn erbyn anghyfiawnderau ac yn ceisio uno'r wlad - drwy ddefnyddio dulliau di-drais, heddychlon bob amser.

Cafodd ei eni yn 1869, ar 2 Hydref. Erbyn heddiw, mae'r dyddiad hwnnw'n ŵyl genedlaethol hefyd. Drwy ei oes, bu'n ymladd dros hawliau ei gyd-ddynion ac yn ceisio gwella'r berthynas rhwng Hindŵiaid a Mwslemiaid yn yr India.

Pan benderfynodd llywodraeth Prydain rannu'r India'n ddwy wlad annibynnol - India a Phacistan - yn 1947, roedd Gandhi yn erbyn y cynllun a bu'n ymprydio er mwyn dangos ei wrthwynebiad.

Cafodd ei saethu'n farw yn Delhi ar Ionawr 30, 1948.